## CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

**Cadeirydd: Alun Owen**

Nos Lun Medi 4ydd 2023 am 7.30 y.h

# Cofnodion (109)

a. Daeth Josh Morales o Orsaf Dân Cerrigydrudion atom i egluro ac esbonio sut a beth oedd angen ei wneud wrth llenwi'r Adolygiad Darpariaeth Brys a'r Cwestiynau Ymgynghori. Cytunwyd i drefnu cyfarfod cyhoeddus gyda Josh i drigolion yr ardal gael mwy o wybodaeth ar sut i lenwi'r Adolygiad ac ateb y cwestiynau. Diolchwyd iddo am ei gyflwyniad manwl.

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gerallt Jones
2. **Presennol:** Cyng. Gari B Jones, Gethin Pyrs, Alun Owen, Edmund Rees, Cyng. Sirol Gwennol Ellis, ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda – neb yn datgan diddordeb
4. **Cofnodion mis Gorffennaf:** Derbyniwyd y Cofnodion fel rhai cywir gan ER yn cynnig gyda GBJ yn eilio
5. **Materion yn Codi o'r Cofnodion:**
   5.1.1. Diweddara ynglŷn â thorri coed ar y parc picnic – Cyng. Sirol yn cynnig cysylltu gyda Chonwy ynglŷn ar fater.
6. **Gohebiaeth:**
   6.1. Wedi derbyn yr ail daliad o'r Presept **£1600.00**
7. **Ffurflen Monitro:**
   Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
8. **Mantolen Banc:**
   Edrychwyd dros y fantolen, hyd yma mae popeth mewn trefn
9. **Talu Anfoneb:**
   9.1.1. Zurich Yswiriant cynigiodd GBJ gyda GP yn eilio talu'r anfoneb o **£295.70** gyda siec rhif **100395** (S111/140)
   9.1.2. Costau'r Clerc am 4 mis o Ebrill i Orffennaf cynigiodd ER gyda GBJ yn eilio talu'r anfoneb o **£205.15** gyda siec rhif **100396.** (S150)
   9.1.3. CBSC – Sgip Gymunedol cynigiodd GBJ gydag ER yn eilio talu'r anfoneb o £220.00 + TAW £44.00 = **£264.00** gyda siec rhif **100396.** (S137)
10. **Adroddiad o'r cyfarfod yn ymwneud a chau'r Orsaf Dân yng Ngherrig:** gweler eitem a.
11. **Gair gan y Cyng. Sirol Gwennol Ellis** -Wedi mynychu sawl cyfarfod yn ymwneud a sefyllfa'r Orsaf **D**ân yng Ngherrigydrudion.
12. **Unrhyw fater arall:**
    12.1.1. Wedi archebu Sgip ar gyfer Medi 12fed 2023
    12.1.2. Derbyniwyd llythyr gan Jessica Pugh yn gofyn am gyfraniad o £400.00.Mae noson ym mis Rhagfyr yn cael ei threfnu pan fydd Siôn Corn yn ymweld a'r ardal ar dractor a threlar. Polisi y Cyngor yw ystyried pob cais am gyfraniad yn ein Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai. Penderfynwyd anfon llythyr yn egluro hun.
13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf** – **Hydref 2ail 2023** (i'w gadarnhau)

**Arwyddwyd**______________________________ **Dyddiad** 02.10.23

Cadeirydd